

6 Safle ddaeryddol Niwbwrch; tro trwy'r tywyn; llysieuath

Saif y plwyf hwn yn agos i ben dwyreiniol y gefnen hir o dir sy'n ymestyn o Fynydd Llwydiarth drwy Niwbwrch i Ynys Llanddwyn, ac yn gwahanu afon Cefni i'r gorllewin oddi wrth Gulfor Menai i'r dwyrain. Ynghanol y pentref, cyferfydd pedair heol ar ffurf croes; yn y rhan ogledd-orllewin o'r plwyf ac yn wynebu Malltraeth ceir y "Pentre Isa", a'r rhan dde-ddwyrain ohono ar gyfer Bae Caernarfon a elwir "Pentre Ucha". Nid oes yr un llecyn yn y plwyf yn uwch na 200 troedfedd, a ni cheir ond un ffrwd o unrhyw faint, yn rhedeg o Lyn Rhos-ddu ac yn ymuno ag Afon Braint ychydig cyn i hon ymarllwys i Fenai.

Ceir bron yr holl ffynhonnau dwfr i'r dê o'r pentref, sef rhyngddo a'r môr. Bu cryn sôn am un, sef Crochan Llanddwyn, a ddaeth yn bur enwog.¹

Er bod y prif ran o'r pentref yn gorwedd mewn dipyn o bantle, braidd yn noeth yw safiad y plwyf oherwydd ei fod yn agored i'r gwyntoedd de-orllewin sy'n chwythu dridiau o bob pedwar. Cyfartaledd gwres yr hinsawdd yn Ionawr yw oddeutu 41EFt. ac yng Ngorffennaf ychydig yn llai na 60EFt. Mae'r plwyf yn un o'r lleoedd sychaf ym Môn, gyda 30 i 35 modfedd o law yn y flwyddyn.²

Ar wahan i Ynys Llanddwyn nid oes fawr yng ngolygfeydd naturiol y plwyf yn teilyngu sylw. Amgylchir y pentref gan goed a'u twf wedi ei rwystro oherwydd gormod o dywod. Ar wasgar ceir bythynnod gwyngalchog a ffermdai bychain y bobl a lafuria i sicrhau bywoliaeth brin o'r tir nad yw yn rhy ffrwythlon. Nodwedd allanol ac amlycaf y plwyf yw'r tywyn sydd yn amgylchu'r pentref oddi eithr ar yr ochr ogleddol.

TRO TRWY'R TYWYN.³

I'r de a'r gorllewin o Niwbwrch ymlêd y ponciau tywod am filltiroedd. Y mae'r rhain yn gartref i lawer rhywogaeth o adar ac yn baradwys wirioneddol i llysieuwr.

O bosibl mai'r ffordd ddifyrraf i'r tywyn i'r naturiaethwr ydyw o Ben-lôn, a heibio Pen-râs, ar hyd lôn fer dywodlyd lle'r addurnir y cloddiau pridd gan y dormaen gyda'i flodau euraid tlws a'r gellhesg felen yn tyfu yn y ffosydd. Ar y dde, gwelir Llyn Rhos-ddu, cyrchle yr iâr ddwr, yr hobi benwen, a'r hwyaden gladdu. Yn aml ceir yno hefyd yr hwyaden lydanbig a'r hwyaden wyllt ac, os byddys yn lwcus, gwelir hwyaden gopaog neu ddwy. Mae hanner y Llyn yn dew gan ffa cors a'u blodyn pinc.

Dan droed mae'r ddaear wedi ei gorchuddio gan laswellt cwta a chlytiau o flodau bychain eiddil a adweinir wrth yr enw mam-/47/yng-nghyfraith,⁴ o liw glas neu biws

¹ Gweler tud. 64.

² Llannerchymedd yw'r ardal wlypaf ym Môn; yno y ceir dros 40 modfedd o law yn flynyddol.

³ Gweler A.A.S. *Transactions* (1933), pp.118-122.

⁴ "Blodeuyn mam-yng-nghyfraith" y gelwir y *pansy* yn yr ardal hon.

(*puce*) a melyn, a rheini'n amryliw a siriol i'r llygaid, ac yn llwyddo i dyfu mewn pridd nad yw fawr well na thywod. Mae'r Ysgol Fair a'r Llygad Siriol yno ymhobman, gyda llawer o flodau heirdd eraill na ellir gobeithio eu hadnabod heb wybodaeth eang o flodeuaeth.

Hanner milltir ymlaen gwelir murddyn, a elwir Clwt-gwlyb, a thu draw iddo y mae bwthyn adfeiliedig arall, sef Rhosydd, gydag un simnai yn aros fel gwyliedydd, ac yn dyst o'r difrod a wnaed gan oresgyniad y tywod. Yn agos iddo mewn pwll, rhyw chwe throedfedd ar draws, a thair modfedd o ddyfn, yr oedd genau goeg gribog, neu "cenau pen wirion" fel y'i gelwir gan bobl yr ardal.

Yr aderyn mwyaf cyffredin yn y rhan hon o'r tywyn yw'r ehedydd, ac yn aml gellir gweled hanner dwsin ohonynt yn yr wybren, pob un yn cystadlu a'r gweddill mewn cân. Ceir digon o'r gynffonwen a gwas y gog, a hoff gan y wiallan goch⁵ gymryd adfeilion y bwthyn fel llecyn i wylid am ei ysglyfaeth.

Yn fuan rhydd y glaswellt cwta ffordd i glytiau mawr o'r helyg gën, ac ymysg y "Cywion gwyddau" (*catkins*) mae'r gwenyn bob amser yn brysur, a'r cacwn mawr yn ehedeg o gwmpas i dyllau'r cwningod yn ei ddull "mi-gollais-fy-ffordd" arferol. Weithiau canfyddir gwyfyn llysiau'r gingroen - creaduriaid gweiniad a ymddengys fel pe na baent fawr well ar ôl eu gorlenwi eu hunain â lindys gwyrdd a melyn a llysiau'r gingroen hir.

Ar y ponciau mwyaf cadarn, a gedwir yn gryno gan wreiddiau yr helyg gën, dengys bob cam fywyd o wahanol fathau, - y chwilen loyw-werdd yn rhedeg yn gyflym ar ei choesau hir-ar-led, neu falwen wedi ei ffunenni'n hardd ag unrhyw liw o felyn i goch. Amgylcha'r gorn-chwiglen uwchben, gan gwynfanu gwrthdystiad yn erbyn pawb a oresgyn ei thiriogaeth. Hêd drosodd wylan y penwaig, hithau yn edrych am wyau y gornchwiglen. Mae'r ffordd y trydd yr wylan ei phen o ochr i ochr pan ehedo yn dangos ei bod yn chwilio bob troedfedd o'r lle. Ond buan y mae'r cornchwiglod yn ei thrin hi, a pharhaent i ymosod arni o bob cyfeiriad a'i gyrru ar ffo am tua hanner milltir.

Fel y dynesir at glwt o forfa llaith, cyfyd giach (sneipen) oddi yno yn ffwdanllyd, a chwibana dwy biden y môr yn wichlyd fel y dilynent hi. Rhaid dewis ein ffordd gyda gofal yma. Tyf planhigion heirdd mewn cyflawnder yn y llaid a gochwyd gan haearn, ac y mae'r glaswellt o amgylch yn las mwy disglair oherwydd y gwrthgyferbyniad. Tu draw i'r fan yma gwelir ponciau tywod yn euraid eu lliw gyda gwawr wyrddlyd ar yr ochr ddeheuol, lle tyf y morhesg. Yma ceir llechweddau hir meddal o dywod sych, heb farc o gwbl oddieithr llwybrau cwningod neu ôl troed ysgafn lle bu'r chwilen yn brysur redeg.

/48/Prydera dyn osod ei droed ar yr wyneb o dywod glân a phrydferth, ac erys am ennyd i sylwi ar flaenau'r morhesg fel y chwyfiant yn fân donnau gyda'r awel ysgafn. O'r braidd y mae gwreiddiau'r morhesg, er eu gwydnwch a'u drysglwm, yn gallu dal y tywod yn ei le pan chwîth y gwyntoedd cryfion, ac mewn ystwm dinoethir y gwreiddiau gan eu gwneud yn addurniadau rhyfedd o'u gweled a'r awyr y

⁵ "Cudyll coch" neu "cenlli goch" y'i gelwir yn Arfon.

tu ôl iddynt. Yn nheyrnasiad y frenhines Elisabeth gwnaed cyfraith i ddiogelu'r morhesg, er mwyn rhwystro goresgyniad y tywod,⁶ ond nid yw'r gwynt yn malio mewn cyfreithiau dyn pa mor ddoeth bynnag y bônt.

Drwy ganol y tywyn, rhed asgwrn-cefn mawr o greigiau tywyll, coch-las a gwyrdd, sy'n cyferbynnu yn drawiadol â'r tywod glân. Yma ar adegau gwelir y gwalch bach, y lleiaf ond y mwyaf ffyrnig o hebogiaid Prydain. Y mae ychydig yn fwy na'r fwyalchen, ac fe ruthra ar adar cymaint ag ef ei hun. Yswil yw'r gwryw bach glas, ond yn aml gellir gweled y fenyw yn hela gwas y gôg.

Ac yna deuir i lan y môr sydd yn ymestyn draw am filltiroedd, gyda'i gerrig crynion, ei gregin a'i dywod wedi eu trefnu a'u gosod gan y tonnau diog a ymdreigla ar y lan bron yn gwbl ddidrydar. Nid felly bob amser chwaith, fel y tystia gweddillion mwy nag un llongddrylliad. Yma y nytha pioden y môr, a wylia yn bryderus ei hwyau brith neu ei chywion brych a guddir yn gyfrwys ar y traeth. Clywir y môr-hedydd yn galw yn gwynfanus, ond ni ellir ei weled ymysg y cerrig hyd oni symudo. Cyn gynted ag y diflanna o'r golwg, eler yn syth i'r llecyn, ac yn gyffredin hawdd yw canfod y llwybr yn y tywod sy'n arwain i'w nyth. Nid hawdd ydyw gweled ei wyau, sydd o liw hufen ac wedi eu brychu, nos bod eu lliw yr un a'u hamgylchedd. Pedwar a welir fel arfer, a gorweddant mewn twll bas wedi ei leinio â chregin cocos wedi eu torri.

Mae'r gefnen creigiau a rêd trwy'r tywyn yn parhau ymlaen i'r môr ac yn ffurfio Ynys Llanddwyn, neu, yn hytrach, benrhyn, gan nad yw'r lle yn ynys oddieithr pan fo'r llanw yn uchel lawn.

Lle o gyfaredd yw Ynys Llanddwyn, wedi ei wahanu oddi wrth y byd ac yn breuddwydio mewn traddodiad. Teifl swyn dros bawb a ymwêl â hi, pa adeg bynnag ar y flwyddyn yr eir yno.

Gellir myned i'r fan hon pan fydd wynwyn y môr yn britho'r glaswellt cwta tyn, neu, yn ddiweddarach, i weled y Glustog Fair yn ei chyflawnder, a bron wedi ei chuddio gan flodau o liw pinc. Yn ei dymor, ceir acer gyfan o dir yn goch gan flodau llydan-agored gwaedgoch Mynawyd y Bugail. Yma y ffynna Rhosyn y Graig, a hefyd y Rhosyn Coesgoch bychan, ac i lawr ar y traethau ceir y Cwlwm Coed yn cropan ymysg y morhesg. Heidia'r gloyn byw yno, bron o bob lliw a bath.

Ond adar Llanddwyn yw prif atyniad y naturiaethwr. Dyma'r lle olaf ym Mhrydain y ceid y Forwennol Wridog ynddo. Tybid rai blynyddoedd yn ôl fod rhywogaeth hon wedi darfod yn y wlad, hyd oni ddarganfuwyd ychydig ohonynt yn nythu yn Llanddwyn. /49/ Ar unwaith cymerodd y Gymdeithas Frenhinol er Diogelwch Adar y camre priodol i'w gwarchod, a llwyddasant i gael cyhoeddi yr Ynys yn noddfa adar, a gosodwyd gwyliedydd yno i ddiogelu yr adar a'u hwyau. O'r adeg honno ymlaen, cynyddodd nifer yr adar hyn bob blwyddyn, ac yn fuan wedyn deuwyd o hyd i'r rhywogaeth yn Ynys y Moelrhoniaid a hefyd mewn dau neu dri o leoedd yr ochr arall i Fôr Iwerddon. Dylid ymfalchio mai Llanddwyn a gadwodd yr adar hyn yn y wlad hon, a hyfyrdwch yw eu gwylid ar yr adain.

Ar wahân i'r rhywogaeth arbennig hon, gwelir yma nifer fawr o Fôr-Wenoliaid⁷ cyffredin a Môr-Wenoliaid y Gogledd. Ceir cannoedd o Wylanod y Penwaig yn nythu ar y creigiau yn y môr gerllaw, a chan eu bod yn dechrau nythu cyn dyfodiad y Môr-Wenoliaid, dewisant fel arfer y lleoedd gorau i'w nythod. Mae'r cynnydd yn nifer Gwylanod y Penwaig ym Môn yn fater lled ddifrifol, gan eu bod yn bwyta had yr yd cyn gynted ag y heuir ef gan yr amaethwyr. Ond yn ffodus mae'r Wylan Gefnddu yn dod yma braidd yn ddiweddar ar ôl tymor hau, ac y mae'r Wylan Benddu yn myned yn gynnar i'w hepilfan, fel y cyfyngir y lladrad had bron yn gyfangwbl i Wylan y Penwaig.

Ar graig gyfagos ymgasgl y Bili Dowcar neu'r Fulfren. Gwelir dwy gigfran yn aml, ac unwaith canfuwyd wyau y troellwr, neu'r sugnwr geifr, sy'n gyffredin yn y tywyn, a gellir clywed amryw ohonynt ar unwaith gyda'r nos.

Ymhob cilfach ceir y Môr-Hedydd a Throchyddion o lawer rhywogaeth, bob amser yn agos i'r lan.

Dyma swyn y fan yn gafael yn yr ymwelydd ac yn peri iddo ymgolli ym mhrydferthwch Natur, a hyd yn oed y creigiau wedi eu britho gan Gen y Cerrig neu'r Glustog Fair, yr awyr a'r môr yn las, a'r tonnau hir yn llithro i'r lan, neu yn gwneud ysnoden o ewyn rhwng dannedd y creigiau. Pa ryfedd, felly, fed Llanddwyn yn fan pererindod rai canrifoedd yn ôl!

Ar yr ochr arall i'r tywyn, yn agos i Aber-menai, ceir nythle y Fôr-Wennol lai, lle y gwelir hefyd y Trochydd Danheddog a'r Llifbig, ac yn y gaeaf, unwaith, y Gwyach Wddf-goch.

ANIFEILIAID GWYLLTION.

Ym mro Niwbwrch gellir gweld y dyfrgi, y fronwen a'r carlwm; cyffredin yw'r ddraenog yn y tywyn, ac nid yw'r ysgyfarnog na'r cenau pen wirion yn ddieithr yn y lle. Mae'r tyrchod daear yn lluosog - yn ormod felly o lawer; pan el, i drap cwningen fe rwystra i'r trap gau, er colled i'r cwningwr.

Ceir hefyd yn yr ardal y ddylluan, y wiallan goch (*sparrowhawk*), y cyfflog (a gaed mewn trap). Adar prydferthach a welir ydyw'r dryw yr helygen (*willow-wren*), y llinos (*linnet*), y llinos werdd (*greenfinch*), melyn yr eithin neu penfelyn (*yellow hammer*), ac aderyn bras yr yd (*corn-bunting*). /50/

LLYSIEUAETH.

Mae'r plwyf yn amddifad o goed gwerth yr enw, ond yn helaeth iawn yn ei fân lysiau. Hawdd cyfrif am hyn. Nid yn unig y mae'r ardal yn arforol, ond mae'r gwyntoedd sydd yn chwythu fynychaf yn dod yn uniongyrchol o'r môr, ac yn llawn o sylwedd halenaidd sy'n andwyol i goed. Heblaw hyn, nid oes gysgod i dorri ei ruthriadau gwenwynig. O'r coed brodorol, yr onnen sydd amlaf, a hynny oherwydd

⁶ Gweler tud. 9.

⁷ "Ystracod" y'u gelwir yn Niwbwrch, ac "ysgreuod" ym Moelfre.

bod ei dail yn weddol fân ac, felly, nid ydyw grym y gwynt yn ei dinoethi i'r un graddau â choed sydd â'u dail yn fwy. Gwelir ambell fasarnen mewn ychydig gysgod, lle na all y gwynt wneud difrod mawr ar ei dail llydain.

Ymysg y planhigion yn y fro yn 1813 ceid y peisg-wellt uncib⁸ rhwng tywyn Niwbwrch a Llanddwyn; y morhesg, merydd, neu cors-wellt y tywod⁹ yn gorchuddio y tywyn ac yn diogelu glannau de-orllewin Môn; y melengu neu gynffon ditw¹⁰ sydd yn lled gyffredin; fflamgoed y morgreigiau¹¹ sy'n tyfu mewn cyflawnder yn Llanddwyn; y pabi neu drewg hir-ben-gwrychog¹² a geir yn aml iawn o gylch Niwbwrch, ond eithriad yw ei weled yn unman arall oddieithr rhwng eglwys Llanfaelog a'r môr; y perchwerwyn, marddynad neu marddanadlen bêr neu Llwyd y cwn¹³ sydd eto yn blanhigyn cyffredin yma, ond ceir ychydig ohono yn agos i Biwmares a Phenmon; y berwr Môn a Manaw¹⁴ a geir mewn cyflawnder yn Aber-menai, ond yn brin iawn ymhob rhan arall o Fôn; y murwyll tewbannog arfor¹⁵ yn agos i Aber-menai a hefyd o fewn milltir i Landdwyn; y mor-hocysen neu hocys-wydd¹⁶ ger Llanddwyn; yr ysgallen wen, ysgallen fraith, ysgallen Fair neu cribau Mair¹⁷ mewn gwahanol fannau o gwmpas Niwbwrch, ond nid ydyw i'w gael yn gyffredin mewn lleoedd eraill; y prin amhrydllwyd rhuddlas¹⁸ ar dywyn Niwbwrch; y gedowys sugawl neu siamper y geifr¹⁹ ar greigiau'r môr yn Llanddwyn a'r cylch, ond yn anodd iawn gael gafael arno yma nac yn unman arall, heb ddringo; y mwsogl pluog²⁰ yn y porfeydd tywodlyd yn agos i Aber-menai; yr edau-fwsogl²¹ ar y gwastadedd rhwng Niwbwrch /51/a Llanddwyn; y glafrgen neu cen y cerrig²² yn nhywyn Niwbwrch; ar gwymon neu gwyg y môr²³ ger Llanddwyn.²⁴

Hanner can mlynedd yn ol gellid gwyled.

8 The single-husked fescue grass (*festuca uniglumis*); prin iawn yw hwn, er ei fod i'w gael hefyd ymysg *arundo arenaria* y tu isaf i Dinllwydan yn yr Aberffraw.

9 The sea-reed, marran or sea mat-weed (*arundo arenaria*).

10 The weld, dyer's weed or yellow-weed (*reseda luteola*); tîf hwn hefyd ar y Trwyn ger Biwmares.

11 The portland spurge (*euphorbia portlandica*); gwelir hwn hefyd ar greigiau Porth Dafarch ger Caergybi, ac ymlaen i gyfeiriad y South Stack.

12 The long-rough-headed poppy (*papaver argemone*).

13 The white horehound (*marrubium vulgare*).

14 The dwarf sea rocket (*sisymbrium monense*).

15 The sea stock (*cheiranthus sinuatus*).

16 The sea tree mallow (*lavatera arborea*); hefyd ar fân ynnysoedd ger glannau de-orllewin a gorllewin Môn, ac ar y South Stack yn agos i Gaergybi.

17 The milk thistle (*carduus marianus*).

18 The blue flea-bane (*erigeron acre*).

19 The samphire-leaved flea-bane or golden samphire (*inula crithmoides*).

20 The feather-moss (*hypnum albicans*); hefyd ar ochr Mynydd Bodafon.

21 The thread-moss (*bryum nutans*); hefyd yn nhywyn Aberffraw yn agos i'r afon Ffraw.

22 The leprous liverwort (*lichen leprosus sanguinarius*).

23 The wrack (*fucus brodiaei*).

24 *Welsh Botany*, by Hugh Davies (London: 1813).

Yn Aber-menai : berwr Môn a Manaw (*Isle of Man cabbage*);

Yn Llanddwyn: sampire y geifr (*golden samphire*), bleidd-drem neu tafod yr ych culddail (*small bugloss*), bara can y defaid neu llyriad y môr (*sea plantain*), a llys y famaeth (*sea spurge*);

Yn Nhywyn Niwbwrch: y frwynen glymmog glaergib (*shiny-fruited rush*), hesgen y tywod (*sand sedge*), hesgen arfor (*sea sedge*), peisg-wellt uncib (*single-glumed fescue grass*), corwlyddyn clymmog (*knotted pearlwort*) mewn mannau tywodlyd gwlyb, amhrydllwyd rhuddlas (*blue flea bane*), edafeddog lwyd neu llys gynddaredd neu llwyd y ffordd (*common cudweed*), edafeddog fynyddig (*mountain cudweed*), gwllidd Mair y gors (*bog pimpernel*), claerlys samwl, samlyen (*brookweed, water pimpernel*), canrhi goch neu ysgol Fair (*common centaury*), canrhi goch arfor (*dwarf-tufted centaury*) braidd yn brin, gwiberlys cyffredin (*common viper's bugloss*) ond yn brin, toddaidd Melyn cyffredin (*common butter-wort*), cors helygen neu helygen y cwn (*creeping dwarf willow*), a baldar blodeuwyrdd neu llys ysgyfarnog (*green frog orchis*);

O dan Factory Niwbwrch: mers neu halogan neu perlllys yr hêl (*wild celery*) braidd yn brin, dibynlar perlllys ddail (*parsley water dropwort*), serenllys y morfa (*starwort*), clwp-frwynen galafawg (*many-stalked club-rush*), clwpfrwynen arfor (*sea club-rush*), a cors-frwynen rûdd (*brown bog-rush*);

O gylch y pentref: glydlys brutanaid (*English catchfly*) ar ochr y ffordd i gyfeiriad Llangeinwen, meillionen fefusaidd (*strawberry-headed trefoil*) rhwng Niwbwrch a Malltraeth mewn porfeydd gwlyb tywodlyd a braidd yn brin, tormaen gwyn neu clor y brain (*white meadow saxifrage*) wrth Llyn Rhos-ddu ond yn brin, ysgallen wen neu ysgallen fraith neu ysgallen Fair (*milk thistles*), helygen deirgwryw hirddail (*long-leaved triandrous willow*), a dyfr lyriad bychan (*small water plantain*) braidd yn brin.²⁵ /52/

25 *The Flora of Anglesey and Caernarvonshire*, by J. E. Griffith (Bangor: 1894)